OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1388 (Cy.138)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Sylweddau Peryglus) (Diwygiadau sy'n ymwneud â Thir y Goron) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *23 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *Mehefin 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 82B(8) a 93 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**) a chan adran 30B(2), (3) ac (8)(b) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**3**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Sylweddau Peryglus) (Diwygiadau sy'n ymwneud â Thir y Goron) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 7 Mehefin 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**4**)fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 5A (cyhoeddusrwydd ar gyfer ceisiadau sy'n effeithio ar osodiad adeiladau rhestredig) mewnosoder–

(**1**) 1990 p. 9. Mewnosodwyd adran 82B gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5), adran 83(1). Gweler adran 91 i gael ystyr "prescribed".

(**2**) 1990 p.10. Mewnosodwyd adran 30B gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adran 79(3). Gweler adran 39(2) i gael ystyr "prescribed".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 i"r graddau yr maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y"u hestynnwyd gan adran 118(3) o Ddeddf 2004.

(**4**) O.S. 1990/1519.

"**Advertisement of applications for urgent works relating to Crown development in Wales**

**5B.**—(1) Subject to paragraph (2), where an application under section 82B(2)(**5**)(urgent works relating to Crown development) of the Act is made to the National Assembly in respect of any building the National Assembly must–

(a) publish in a local newspaper circulating in the locality in which the building is situated a notice–

(i) indicating the nature of the works which are the subject of the application, and,

(ii) naming a place within the locality where a copy of the application, and of all plans and other documents submitted with it, will be open to inspection by the public at all reasonable hours during the period of 21 days beginning with the date of publication of the notice, and

(iii) stating the address of the website where a copy of the application, and of all plans and other documents submitted with it, will be open to inspection by the public during that period, together with the place on the website where such documents may be accessed, and how they may be accessed, and

(b) for not less than 7 days display on or near the said building a notice containing the same particulars as are required to be contained in the notice to be published in accordance with sub-paragraph (a).

(2) Paragraph (1) does not apply to any application for listed building consent to carry out works affecting only the interior of a Grade II (unstarred) listed building which when last notified to the authority by the National Assembly as a building of special architectural or historic interest was classified as a Grade II (unstarred) listed building.".

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992(**6**)fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 14 (cais am yr hyn a fernir yn ganiatâd), ar ôl "section 11" mewnosoder "or 30B".

(3) Yn rheoliad 15 (amodau ar yr hyn a fernir yn ganitatâd), ar ôl "section 11(7)(b)" mewnosoder "and section 30B(8)(b)".

(4) Yn Atodlen 2 (ffurfiau, hysbysiadau a thystysgrifau rhagnodedig) yn Ffurf 8–

(a) yn y pennawd, ar ôl "Section 11"ychwaneger "and 30B";

(b) yn y nodiadau i Ran 2, ar ôl "1999"yn nodyn (c) mewnosoder "or, in the case of applications for deemed consent under section 30B, 7 Mehefin 2006"; ac

(c) yn y nodyn i Ran 5, ar ôl "section 11(7)"mewnosoder ", or, as the case may be, section 30B(8)".

(**5**) Mewnosodwyd adran 82B gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5), adran 83(1).

(**6**) O.S. 1992/656. Gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S. 1999/981.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*D. Elis-Thomas*

23 Mai 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu darpariaethau a geir mewn dwy set o Reoliadau i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn ymwneud â chaniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu sylweddau peryglus ac y mae a wnelont â thir y Goron.

Diwygiodd adran 83 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004") Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 drwy fewnosod adran 82B newydd ynddi. Mae hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau brys am waith ar adeiladau ar dir y Goron sy'n rhestredig neu sydd mewn ardaloedd cadwraeth ac yn darparu i geisiadau o'r fath gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae adran 82B(8) yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i roi cyhoeddusrwydd i'r cais yn unol ag unrhyw ofynion a ragnodwyd. Yn unol â hyn, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (O.S. 1990/1519) i ragnodi'r gofynion hynny i roi cyhoeddusrwydd (rheoliad 2).

Diwygiodd adran 79 o Ddeddf 2004 Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 drwy fewnosod adran 30B newydd. Mae'r adran honno, o ran darpariaeth drosiannol, yn barnu bod caniatâd sylweddau peryglus wedi cael ei roi mewn perthynas â sylweddau peryglus sy'n bresennol ar dir y Goron cyn y dyddiad y mae Rhan 7 o Ddeddf 2004 (sy'n cymhwyso'r Deddfau Cynllunio i'r Goron) yn cael ei chychwyn. Mae adran 30B yn ei gwneud yn ofynnol i gais gael ei wneud am yr hyn a fernir yn ganiatâd sylweddau peryglus yn y ffurf ragnodedig a chan gynnwys yr wybodaeth ragnodedig. Mae hefyd yn darparu y gall yr hyn a fernir yn ganiatâd fod yn ddarostyngedig i amodau penodol — gan gynnwys unrhyw amod sy'n rhagnodedig. Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992 (O.S. 1992/656) er mwyn rhagnodi ffurf a chynnwys y cais a'r amodau y bydd yr hyn a fernir yn ganiatâd yn ddarostyngedig iddynt (rheoliad 3).

Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672), ynghyd ag adran 118(3) o Ddeddf 2004, mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn y materion hyn bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ni luniwyd asesiad effaith reoleiddiol lawn ar gyfer yr offeryn hwn, gan nad yw'r offeryn yn effeithio o gwbl ar gostau busnesau, elusennau, cyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.